Troseddau Bwyd

Troseddau bwyd a sut i roi gwybod amdanynt

Dylai fod gan ddefnyddwyr hyder bod eu bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Mae troseddau bwyd yn dwyll difrifol sy'n effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid. Gall fod yn niweidiol iawn i ddefnyddwyr, busnesau bwyd a'r diwydiant bwyd ehangach.

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gweithio i atal, canfod ac ymchwilio i droseddau bwyd ledled y Deyrnas Unedig (DU).

Mathau o droseddau bwyd

Mae'r Uned yn canolbwyntio ar saith math o droseddau bwyd:

- **dwyn** – cael gafael ar gynhyrchion bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid mewn ffordd anonest er mwyn gwneud elw drwy eu defnyddio neu eu gwerthu
- **prosesu anghyfreithlon** – lladd neu baratoi cig a chynhyrchion cysylltiedig mewn safleoedd heb eu cymeradwyo neu drwy ddefnyddio technegau heb eu hawdurdodi
- **dargyfeirio gwastraff** – rhoi bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sy'n wastraff yn ôl i mewn i'r gadwyn fwyd yn anghyfreithlon
- **difwyno** – gan gynnwys sylwedd estron nad yw ar label y cynnyrch i ostwng costau neu ffugio ansawdd uwch
- **amnewid** – amnewid bwyd neu gynhwysyn gyda sylwedd arall sy'n debyg ond yn israddol
- **cam-gynrychioli** – marchnata neu labelu cynnyrch yn anonest o ran ei safon, ei ddiogelwch, ei darddiad neu ba mor ffres ydyw
- **twyllo dogfennol** – gwneud, defnyddio neu feddu ar ddogfennau ffug gyda'r bwriad o werthu neu farchnata cynnyrch twyllodrus neu is-safonol

Atal troseddau bwyd

Gall troseddau bwyd ddigwydd mewn sawl ffordd. Gall amrywio o weithredoedd anonest untro gan droseddwyr unigol i weithgarwch anghyfreithlon wedi'i drefnu a gydlynir gan rwydweithiau troseddol.

Gellir lleihau troseddau bwyd trwy atal ffordd i droseddwyr gyflawni troseddau, neu drwy leihau'r tebygolrwydd y bydd unigolion a grwpiau'n dod yn droseddwyr yn y lle cyntaf.

Mae'r Uned yn gweithio gyda'r diwydiant bwyd i sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o risgiau troseddau bwyd ac yn gallu rhoi mesurau ar waith i ddiogelu eu hunain rhag troseddau bwyd.

Mae sicrhau nad oes croeso o fewn y sectorau cynhyrchu, gweithgynhyrchu a manwerthu bwyd i'r unigolion neu grwpiau sy'n bwriadu troseddu yn allweddol i atal troseddau bwyd.

Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd 2020

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) Safonau Bwyd yr Alban wedi cynhyrchu asesiad o fygythiadau troseddau bwyd i'r DU.

Mae'r Asesiad Strategol Troseddau Bwyd yn archwilio rhannau o'r gadwyn gyflenwi bwyd a allai fod yn agored i droseddau bwyd, yn ogystal â nodi bygythiadau sy'n dod i'r amlwg y mae angen mynd i'r afael â hwy.

View Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd 2020 as PDF (1.14 MB)

Rhoi gwybod am droseddau bwyd

Gall aelodau'r cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio yn y sector bwyd a diod roi gwybod am droseddau bwyd trwy ein llwyfan rhoi gwybod am Droseddau Bwyd yn Gyfrinachol.

Mae achosion o hylendid bwyd gwael yn peri pryder i'r ASB, ond nid ydynt yn cael eu diffinio fel troseddau bwyd. Dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am bryderon hylendid, nid i'r Uned, os nad oes bwriad uniongyrchol i dwyllo.

Gall unrhyw un sy’n amau trosedd bwyd roi gwybod amdani’n ddiogel ac yn gyfrinachol i'r Uned. Gallwch chi roi gwybod am drosedd bwyd ar-lein neu dros y ffôn ar 0207 276 8787.